**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Dwyryd, Canolfan Gyswllt y Cyngor, Penrhyndeudraeth ar 13 Tachwedd 2017 o 2.00 p.m. hyd 3.25 p.m.**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam - Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards

**Penaethiaid Ysgolion :** Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn).

**Llywodraethwyr:** Elen ap Gwilym (Ysgol Bro Tegid)
Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Gwern ap Rhisiart (Uwch Reolwr Cynhwysiad)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Huw Ynyr (Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**(a) Croesawyd yr aelodau canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Fforwm:**

- **Elen ap Gwilym, Llywodraethwr Ysgol Bro Tegid, a oedd yn cynrychioli Llywodraethwyr Cynradd Meirionnydd**
- **Dylan Davies, Pennaeth Dyffryn Ogwen, fel olynydd i Alun Llwyd**

**(b) Adroddodd yr Aelod Cabinet Addysg bod Garem Jackson wedi ei benodi i'r swydd Pennaeth Addysg yn ddiweddar, a gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon llythyr iddo i'w longyfarch ar ran aelodau'r Fforwm Cyllideb Ysgolion.**

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iona Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Andrew Roberts (Ysgol Y Berwyn), Edward Bleddyn Jones (Llywodraethwr Cynradd), Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth), Neil Foden (Undebau Athrawon), Garem Jackson (Pennaeth Addysg).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol gan y canlynol:

- Pennaeth Cyllid oherwydd bod ei wraig yn gweithio yn Ysgol Syr Hugh Owen
- Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid gan ei fod yn lywodraethwr ar ysgol

Roeddynt o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni fu iddynt adael y cyfarfod.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### (a) Eitem 5 – Cyllideb a Diffyg Ariannol Ysgol Tywyn

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg yn dilyn cais gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn am gefnogaeth i'r sefyllfa o ddiffyg ariannol hanesyddol, bod trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd ar y ffordd ymlaen. Ychwanegwyd nad oedd y mater hyd yma wedi ei drafod gan Tim Arweinyddiaeth y Cyngor.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (b) Eitem 8 (b) - Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion

Derbyniwyd cyflwyniad, ar ffurf sleidiau, gan yr Uwch Rheolwr TG a Thrawsnewid, gan roi hanes y rhyngrwyd o'i ddyfodiad yn 1969 ac erbyn heddiw bod y defnydd wedi cynyddu a dyfeisiadau wedi symud yn eu blaen yn aruthrol. O dan raglen grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol, darparwyd cysylltiad band eang ar gyflymder o 10Mbps i ysgolion cynradd a 100Mbps i ysgolion uwchradd.

Eglurwyd esblygiad y rhwydwaith i'r ysgolion a'r gwelliannau mae'r rhwydwaith PSBA ar gyfer y sector gyhoeddus yng Nghymru wedi ei gael a manteision cynyddol i'r dyfodol.

O ran pwy sy'n gyfrifol am beth, eglurwyd fel a ganlyn:

- Bod CYNNAL yn darparu cefnogaeth i'r cyfarpar sy'n cysylltu i'r rhwydwaith a gweinyddu'r hidlo
- Bod y Cyngor yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth rhwydwaith, rheoli cytundeb BT, di-wifr, diogelwch, hidlo a datblygu gwasanaeth newydd (megis ffonau)
- Bod BT yn gyfrifol am seilwaith y rhwydwaith PSBA

O safbwynt dyraniad costau o £540,000, byddai'n seiliedig ar y pedwar elfen isod:

- Cyswllt uniongyrchol
- Rhwydwaith
- Cynnal a chadw i gynnwys meddalwedd
- Cefnogaeth staff canolog – ymateb i broblemau ac i ddatblygu'r rhwydwaith

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebodd yr Uwch Reolwr TG a Thrawsnewid i'r ymholiadau fel a ganlyn:

(i) bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth bron iawn yn ei le, a thrwy amlygu'r hyn a fwriedir hyderir y bydd ysgolion yn cytuno i ddarpariaeth drwy'r awdurdod i gael at rwydwaith ddibyniadwy ac yn hyn o beth fe ellir cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i hwyluso rhaglen Dyfodol Llwyddiannus

(ii) o safbwynt oedran y cyfarpar y byddai'n rhaid ychwanegu ar ôl oddeutu 10 mlynedd (mae'r cyfarpar yn 4 oed yn barod)
(iii) yng nghyd-destun ariannu unrhyw ychwanegiad i'r cyfarpar yn oddeutu 2021-2023, byddai'n ofynnol i ysgolion gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y costau

Mewn ymateb i (ii) a (iii) uchod, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Addysg yr angen i roi cynllun at ei gilydd yn fuan a'r angen hefyd i rybuddio ysgolion ymlaen llaw o debygolrwydd o gostau gan bod technoleg yn newid mor gyflym.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

### (c) Eitem 9 – Talu ar Lein

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod gwasanaeth talu-ar-lein bellach wedi ei gyflwyno i ysgolion cynradd a'r rhan helaeth o staff yr ysgolion wedi derbyn hyfforddiant. Croesawyd y gwasanaeth ac ychydig iawn o sylwadau a dderbyniwyd megis nad oedd rhieni yn gallu gweld balansau / credyd. Penderfynwyd i ddefnyddio cyfarpar "SIMS Dinner Money" gyda'r awdurdod yn ariannu'r modiwl. 'Roedd oblygiadau i ail-hyfforddi Clercod Arian Cinio ond y byddai'r modiwl yn fanteisiol oherwydd y byddai'n lleihau'r gaith cyfrifo a balansio. Nodwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda CYNNAL ar gyfer hyfforddiant ac y byddir yn ymgorffori hyfforddiant gyda hyfforddiant a drefnir ar gyfer casglu arian clybiau brecwast (gweler isod).

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

### (ch) Eitem 10 – Ymgynghoriad Clwb Brecwast

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg bod y Cabinet yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2017 wedi penderfynu codi ffi o 80c am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast. Fe fyddai'n ofynnol i lunio llythyr unigryw ar gyfer pob ysgol i amlinellu'r trefniadau, amseroedd, dull talu, a.y.b. gyda'r llythyr i bwysleisio bod dyletswydd statudol i gynnig brecwast am ddim ac mai am yr elfen amser gwarchod y byddir yn codi'r ffi.

Ychwanegwyd y bydd angen cynnig hyfforddiant i staff ysgolion (Clercod Arian) ar gyfer casglu'r arian ac i'w gynnal yr un pryd â hyfforddiant "SIMS Dinner Money". Fe fyddir yn trafod gydag Undebau'r Staff ategol yr elfennau uchod. Yn ogystal, fe fyddai'r drefn yn cynnig cytundeb parhaol i'r Goruchwylwyr Clwb Brecwast gyda'r hawl i dâl salwch.

Mewn ymateb i ymholiad gan Bennaeth ynglyn â gweinyddu'r drefn a'r angen i sicrhau bod manylion yn glir mewn cynllun busnes, esboniwyd y byddir yn casglu'r arian ar lein a chydnabuwyd y bydd newid i'r drefn ac anogwyd ysgolion i gysylltu â'r Adran Addysg os rhagwelir bod unrhyw fater o bryder i'w ddatrys.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 5. GRANTIAU YSGOLION 2018/19

### (a) Grant 6ed

Adroddodd y Rheolwr Cyllid nad oedd llythyr penodol wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru ynglyn â'r grant uchod o £9.8m ar gyfer 2018/19 ond deallir bod gostyngiad a oedd yn cyfateb i leihad o 10% yn nhermau arian parod ond mewn gwirionedd y byddai'n gostwng 12%. Fe fyddir yn anfon llythyr i ysgolion yn dilyn derbyn gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru.

**(b) Grant Datblygu Disgyblion (GDD – yr hen Grant Amddifadedd Disgyblion**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid nad oedd gwybodaeth benodol wedi ei dderbyn oddi wrth Llywodraeth Cymru ynglyn â'r grant uchod

(c) Grant Gwella Addysg

Yn ystod y 2 flynedd diwethaf dyranwyd £26m ar gyfer y grant uchod, £133m ar lefel Cymru. Deallir bod gostyniad i'r grant dan sylw a olygai 19.5% yn nhermau arian parod a oedd yn cyfateb i 23% mewn gwirionedd yn nhermau real.

Ar gyfer 2018/19, dyrannir £15m sy'n cyfateb i 11.4% mewn arian parod ond 14.3% yn nhermau real.

Adroddwyd y bydd lleihad o 1% yn y grant uchod yn 2018/19 ac 1% pellach yn 2019/20.

Nodwyd bod 60% o'r grant uchod yn ymwneud â'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer cymhorthyddion, a.y.b.

(ch) **Grant Gwisg Ysgol**

Deallir bod y grant uchod yn dirwyn i ben ond hyd yma ni dderbyniwyd eglurhad pellach.

**Penderfynwyd: Rhaeadru y cofnod uchod, fel mater o frys, i holl ysgolion y Sir.**

**6. SETLIAD DRAFFT – STRATEGAETH ARIANNOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19, 2019/20 ac 2020/2021**

**(a) Setliad Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol 2018/19**

Adroddodd y Pennaeth Cyllid oddeutu blwyddyn yn ôl crybwyllodd Llywodraeth Cymru bod dyraniad "ychwanegol" o £58m, ond nid oedd yn ychwanegol, oherwydd bod y grantiau i awdurdodau lleol yn lleihau'n sylweddol.

Eleni, nodwyd bod datganiadau'r Ysgrifennydd Cabinet yn sôn am £104m sydd ddim yn "ychwanegol" go iawn, gan fod dyraniad Llywodraeth Leol i lawr 0.5% yn nhermau "arian", heb ychwanegiad tuag at chwyddiant na gofynion uwch anorfod. 'Roedd £62m o'r dyraniad "ychwanegol" ar gyfer ysgolion, ond does dim "arian". Dywedir hefyd bod rhai grantiau yn trosglwyddo i'r setliad, ond eto, does dim "arian" ychwanegol.

Roedd bwriad i gynnal cyfarfodydd "Partnership Council" a "Phwyllgor Llywodraeth Leol" ym Mae Caerdydd wythnos diwethaf ond oherwydd y digwyddiadau trist bu i Lywodraeth Cymru gau am yr wythnos. Hyderir y gellir derbyn eglurder am y grantiau mor fuan ag sy'n bosibl.

Deallir bod gan Llywodraeth Cymru arian ychwanegol ond bod yr arian hwn wedi ei flaenoriaethu i'r sector iechyd.

**(b) Setliad Cyngor Gwynedd 2018/19**

Derbyniodd awdurdodau lleol Cymru doriad o 0.5% ar gyfartaledd, gyda Chyngor Gwynedd yn derbyn toriad o 0.1% mewn amrediad rhwng 0 a 1%. Nodwyd bod y gwahaniaeth rhwng y 0.5% a'r 0.1% wedi'i ymrwymo eisoes gan y Cyngor er mwyn cyfarch gofynion gwario ar ofal cymdeithasol mewn ardal wledig.

Tynnwyd sylw bod setliad eleni yn un anodd eto ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, sydd yn barhad o effaith polisi "caledi" Llywodraeth San Steffan a fydd yn cael effaith ar wasanaethau a thrigolion ar draws Cymru.

Pwysleiswyd mai mwy o newyddion drwg sydd i ddod i'r dyfodol, gyda chwyddiant tua 2%, nodwyd bod setliad drafft 0.1% (i'w gadarnhau yn Rhagfyr) yn doriad gwir o 2%, heb ddim i gwrdd â phwysau ychwanegol ar wasanaethau gofal cymdeithasol i nifer uwch o oedolion hŷn, a.y.b.

### (c) Sefyllfa Posibl 2019/20

Erbyn 2019/20, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad "dangosol" o -1.5%. Yr un adeg, disgwylir chwyddiant tâl sylweddol o gyfarch y targed "cyflog byw" ar gyfer staff y Cyngor a staff y cyflenwyr. Gall hynny olygu effaith toriad real o oddeutu 5% erbyn 2019/20.

### (ch) Gofynion Ariannol Corfforaethol a'r effaith ar gyllidebau ysgolion erbyn 2018/19

Erbyn 2018/19, nodwyd na fydd targed arbedion ychwanegol i ysgolion, fel gweddill gwasanaethau'r Cyngor, OND:

- Rhaid gweithredu ar gynlluniau arbedion hanesyddol, sy'n cynnwys gwedill y £4.3m, lle roedd tua £200,000 i ddod o arbedion trefniadaeth ysgolion ychwanegol erbyn 2018/19
- Gan nad yw hyn ar trac, diau y bydd rhaid cwtogi'r cwantwm yn briodol, sydd cyfwerth â thua 0.3%.

### (d) Gofynion Ariannol Adrannol a'r effaith ar gyllidebau ysgolion erbyn 2018/19

Adroddwyd bod gorwariant sylweddol (£260,000) ar gludiant i ddisgyblion, yn bennaf tacsis i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd bod y Pennaeth Addysg wedi cyflwyno "bid" i'r Cyngor ariannu'r pwysau anorfod yma i'r dyfodol, ac yn ôl-syllol, ond mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cais. Gan y bydd rhaid ei ariannu o rhywle, diau y bydd raid cwtogi'r cwantwm ar gyfer hynny hefyd. Felly, gallasai hynny olygu bod ysgolion yn wynebu lleihad o hanner miliwn yn eu dyraniadau, sydd cyfwerth â thua 0.7% ychwanegol.

Fodd bynnag, yn unol â'r drefn arferol yng Nghyngor Gwynedd, byddir yn ariannu chwyddiant yng nghyllidebau ysgolion, felly bydd twf net yn nhermau real ac unrhyw doriad yn dryloyw.

### (dd) Gofynion Ariannol Corfforaethol a'r effaith ar gyllidebau ysgolion erbyn 2019/20 a thu hwnt

Adroddwyd y byddai'n her ariannol enfawr I'r Cyngor ddarganfod bwlch hyd at £30m o arbedion dros dair blynedd. Felly, rhwng 'rwan a Hydref 2019, bydd holl

wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys Addysg ar ran ysgolion, yn gorfod egluro effaith tebygol toriadau sylweddol yn eu cyllidebau.

Wedi ystyried yr holl opsiynau, ac wedi cael cadarnhad o'r setliad ymhen blwyddyn, bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda'r cyhoedd ar rai dewisiadau rhwng Hydref a Thachwedd 2019. Golygai'r dewisiadau hyn gynnwys lleihau'r cwantwm ysgolion erbyn 2019/20.

**(e) Gofynion Ariannol Adrannol a'r effaith ar gyllidebau ysgolion erbyn 2019/20**

Adroddwyd bod yr Adran Addysg wedi sefydlu strwythur weinyddol yn y tair ardal ar gost ychwanegol o £275,000, yn amodol ar gyflwyno arbedion o swm cyffelyb o fewn tair blynedd o Fedi 2016. Nodwyd y byddir angen rhan o'r arbedion hyn erbyn 2019.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Cynhwysiad ar yr opsiynau ar gyfer dyrannu cyllideb ddatganoledig anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad. Esboniwyd bod y gyllideb integreiddio ar gyfer 2017-18 yn £5.9m ac o dan bwysau oherwydd dwy elfen sef cyllido darpariaeth Ysgol Hafod Lon a'r galw am gefnogaeth yn cynyddu. O'r £5.9m dyranwyd £4.4m ar gyfer disgyblion gydag datganiadau neu Cynlluniau Datblygu Unigol Awdurdod ac yn gadael y gweddill (£1.5m) i'w ddosbarthu trwy ddyraniad "anghenion dysgu ychwanegol cyffredinol" ar sail 80% nifer disgyblion a 20% disgyblion sy'n gymwys am ginio am ddim.

Datganolir cyllideb i 14 ysgol cynradd ac 14 ysgol uwchradd gyda'r gweddill yn derbyn cyllideb drwy gytundeb lefel gwasanaeth.

Nodwyd y byddai'r gyllideb yn lleihau er mwyn cyflwyno arbedion o £400,000. Adroddwyd bod y Bwrdd Prosiect Gwynedd a Môn yn ymchwilio i ddulliau amgen o ddatganoli cyllid ac yn cynnig yr opsiwn canlynol fel cam cyntaf:

1. Defnyddio data i adnabod disgyblion darpariaeth statudol (datganiadau a CDU) ar sail gwir gost. Byddir yn cyfeirio drwy Fforymau a Phaneli Cymedroli (lefel CDU awdurdod ac uwch) ar sail gofynion eu Cynllun Gweithredu ac yn derbyn darpariaeth gan y Tim Integredig (yn ganolog) a chymorthyddion (ysgol).
2. Cynnig adnabod a thynnu swm wrth gefn ar gyfer Datganiadau CDU a ddaw i fewn yn ystod y flwyddyn ar sail % o'r gyllideb ddatganoledig. Pe byddir ddim yn gwneud defnydd o'r arian gellir ei rannu hefo ysgolion yn dilyn y cyfnod.
3. Dyrannu gweddill yr arian (sef Cyllideb ddatganoledig llai datganiadau/cdu llai % wrth gefn llai arbedion) ar sail niferoedd a nifer disgyblion prydau ysgol am ddim.

4. Ysgolion i ystyried trefn glwstwr o benodi cymorthyddion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebodd yr Uwch Reolwr Cynhwysiad i gwestiynau fel a ganlyn:

(a) Yng nghyd-destun amserlen, nodwyd mai'r bwriad fyddai ei weithredu o fis Medi 2018.
(b) Cytunwyd na fyddai angen ymgynhori ar y dyraniad gan ei bod eisioes wedi cytuno ar drefn i ddyrannu ar sail niferoedd a niferoedd plant sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

(b) o safbwynt adborth yng ngweithrediad y cynllun peilot Cyd lynydd Clwstwr, eglurwyd ei fod yn gynamserol ar hyn o bryd ond y byddir yn pwyso a mesur unrhyw adborth maes o law. Ni fyddai'r cynllun hwn yn effeithio ar y drefn ddatganoli.

cadarnhawyd bod angen ystyried cyfrifoldeb ynglyn â chostau pan fo plentyn anghenion addysgol ychwanegol yn symud o ysgol i ysgol.

Ychwanegwyd bod y gyllideb heb gael unrhyw dŵf, ac er hynny, bod niferoedd y plant gydag anghenion yn cynnyddu a'r anghenion yn rhai mwy dwys.

Byddir yn parhau gyda'r trefniadau dyraniad yn seiliedig ar ginio am ddim a hefyd yn parhau gyda'r gwaith PLASG.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y cyflwyniad.**

**8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i gynnal cyfarfod nesaf y Fforwm am 9.30 a.m. ar 11 Ionawr 2018.**

**CADEIRYDD**